# *CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL*

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llandysul a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul a thrwy gyfrwng Zoom, ar 11eg Mai 2026**

**Minutes of Annual Meeting of Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul and via Zoom on 11th May 2026**

**Yn Bresennol/Present**:
Cynghorwyr/Cllrs Beth Davies, Douglas Davies, Heddwen Davies, Deiniol Evans, Peter Evans, Gethin Jones, Sue Lloyd, Keith Evans, Eifion Rees a/and Chynghorwyr Sir/County Councillors Keith Evans De Llandysul/South Llandysul, a/and Maldwyn Lewis Gogledd Llandysul & Throedyraur/North Llandysul & Troedyraur
Ymunodd Cynghorydd Eileen Curry ar-lein o eitem rhif 15 o'r agenda ymlaen /Cllr Eileen Curry joined the meeting online from agenda item number 15

**Ymddiheuriadau/Apologies;**
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheiriadau. / No apologies were received.

**Adroddiad/Report**

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf cafwyd adroddiad gan PCSO Anwen Davies 8176, yn rhoi diweddariad am y Troseddau a'r Digwyddiadau yn ardal y Cyngor. / Folowing the last meeting a report was received from PCSO Anwen Davies 8176 providing a Crime and Incident Update for the Councils area.

Isod, gweler rhestr o'r troseddau / digwyddiadau a adroddwyd yn wardiau tref Llandysul, Pontsiân a Chapel Dewi. / Below is a list of crimes / incidents that were reported within Llandysul town, Pontsian and Capel Dewi wards.

**Adroddiad Mawrth /March Report**

**Ward Tref Llandysul Town Ward**

**Trosedd-Aflonyddu/Bygythiadau - 2**
Y ddau barti yn adnabod ei gilydd.
**Trosedd – Domestig 6 adroddiad**
Pob parti yn adnabod ei gilydd. **Trosedd – Dwyn – 2 adroddiad**
Dwyn beic
Dwyn Cerbyd, y person yn hysbys, mater sifil
**Trosedd – Byrgleriaeth – 1 adroddiad**
Byrgleriaeth, iechyd meddwl posibl **Trosedd – Twyll – 1 adroddiad** Sgam dros y ffôn, ni chollwyd arian
**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - 1**
Niwsans – y ddau barti yn adnabod ei gilydd
**Lles a diogelwch y cyhoedd – 4**

## Ward Pontsiân a Chapel Dewi / Pontsian and Capel Dewi Ward

**Trosedd – Aflonyddu - 1**
Y ddau barti yn adnabod ei gilydd
**Trosedd – Stelcio – 1**
Y sawl a oedd yn adrodd heb fod yn adnabod y stelciwr, iechyd meddwl o bosibl.
**Trosedd – Gwrthrych/Gweithgarwch Amheus -1**
Rhif adnabod wedi cael ei glonio o bosibl
**Trosedd – Trafnidiaeth – 4**
2 adroddiad am yrru'n beryglus 1 coeden yn
rhwystro'r ffordd
Damwain ffordd – adroddiad am ddamwain, nad oedd yn wir
**Lles a Diogelwch y cyhoedd – 1**
Yn ymwneud ag anifail – ci yn ymosod ar anifeiliaid fferm, gan arwain at golli anifeiliaid

Gan nad oedd y PCSO yn bresennol yn y cyfarfod, ac na chafwyd adroddiad am fis Ebrill, penderfynwyd y byddai'r clerc yn cysylltu â hi gan ofyn a fyddai modd iddi ddarparu adroddiad, gan nodi y byddai ei phresenoldeb yn ein cyfarfod yn cael ei groesawu'n fawr. / As the PCSO was not present at the meeting and no report for April was received it was decided that the clerk contact her asking if she could provide a report in advance of the meeting, and that her presence at our meeting would be very much welcomed.

1 **Ethol Cadeirydd:-** Cynigiodd Cynghorydd Keith Evans y dylai'r Is-gadeirydd, Peter Evans, fod yn gadeirydd ar gyfer Blwyddyn 2026/27 y Cyngor, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gynghorydd Douglas Davies. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. Fel y cadeirydd newydd, diolchodd Cynghorydd Peter Evans i'r cadeirydd blaenorol, ac ymgymerodd â rôl y cadeirydd am weddill y cyfarfod.

2 Llofnodwyd y **Datganiad Derbyn Swydd gan gynnwys y Cod Ymddygiad** gan Gynghorwyr Peter Evans ac Eifion Rees.

3 **Ethol Is-Gadeirydd**
Gofynnodd Cynghorydd Peter Evans am enwebiadau ar gyfer rôl yr Is-Gadeirydd.
Cynigiwyd enw Cynghorydd Eifion Rees gan Gynghorydd Gethin Jones, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gynghorydd Keith Evans. Gan na chafwyd unrhyw enwebiadau pellach, cariwyd y cynnig. Aeth Cynghorydd Eifion Rees ymlaen i lenwi'r Datganiadau Derbyn Swydd.

4 **Ethol aelodau'r Pwyllgor Cynllunio**
Rhoddir copïau electronig i'r holl Gynghorwyr o'r holl geisiadau, sy'n eu galluogi i gyflwyno sylwadau. Yn absenoldeb sylwadau, gall y Clerc drafod ceisiadau gyda'r Cynghorwyr am y wardiau amrywiol dan sylw.
Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i ethol yr aelodau canlynol i'r Pwyllgor Cynllunio:-
Ward Capel Dewi – Cynghorydd Elen Grantham
Ward Tref Llandysul – Cynghorwyr Eifion Rees a Peter Evans
Ward Tre-groes – Cynghorydd Eileen Curry
Ward Pontsiân – Cynghorydd Gethin Jones.
Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig parhaus i'r Clerc ddelio â'r ceisiadau rhwng cyfarfodydd trwy gysylltu â'r aelodau perthnasol, er mwyn ymateb i'r dyddiadau cau a osodir gan yr Awdurdod Cynllunio.

5 **Ethol Pwyllgor Cyllid**
Penderfynwyd ethol yr aelodau canlynol i'r pwyllgor Cyllid:- Cynghorwyr Beth Davies, Keith Evans, Sue Lloyd a Peter Evans. Byddai Cynghorwyr Keith Evans, Beth Davies a Douglas Davies yn llofnodwyr sieciau.

6 **Archwilydd Mewnol**
Penderfynwyd gofyn i Mr R J Foulkes barhau fel Archwilydd Mewnol.

7 **Rheolaeth Fewnol/Gwiriwr Mewnol:-** Penderfynwyd y bydd Cynghorydd Gethin Jones yn parhau i gyflawni'r rôl.

8 **Asesiad Risg Cyllid**
Mae camau priodol i reoli Rheolaeth Fewnol/Asesiad Risg ac adolygu'r Yswiriant wedi cael eu cynnal trwy fabwysiadu polisïau amrywiol, ynghyd â chyngor neu ganllawiau a roddir gan Archwilio Cymru ac Un Llais Cymru.

1 **Election of Chair:-** Cllr Keith Evans proposed that Vice Chairman Cllr Peter Evans as chair for the Municipal Year 2026/27 this was seconded by Cllr Douglas Davies. There were no other nominations. As the newly elected chair Cllr Peter Evans thanked the retiring chair and presided over the remainder of the meeting.

2 **Declaration of Acceptance of Office including The Code of Conduct** was signed by Cllrs Peter Evans and Eifion Rees.

3 **Election of Vice Chair** Cllr Peter Evans requested nominations for the position of Vice-Chair.

Cllr Gethin Jones, proposed Cllr Eifion Rees which was duly seconded by Cllr Keith Evans. There being no further nominations, the proposal was carried. Cllr Eifion Rees completed the Declarations of Acceptance of Office

4 **Election of Planning Consultees Committee**
All Councillors are provided with electronic copies of all applications enabling them to submit comments. In the absence of comments Clerk is able to discuss applications with the Councillors for the various wards concerned. It was unanimously resolved to elect the following to the Planning Consultee Committee:-
Capel Dewi Ward – Cllr Elen Grantham
Llandysul Town Ward – Cllrs Eifion Rees and Peter Evans
Tregroes Ward – Cllr Eileen Curry
Pontsian Ward – Cllr Gethin Jones.
Continued delegated authority was authorised to the Clerk to deal with the applications between meetings by contacting the relevant members to meet the deadlines set by the Planning Authority.

5 **Election of Finance Committee**
It was resolved to elect the following to the Finance committee: - Cllrs Beth Davies, Keith Evans, Sue Lloyd and Peter Evans.
Cllrs Keith Evans, Beth Davies and Douglas Davies would be cheque signatories.

6 **Internal Auditor**
It was resolved to ask Mr R J Foulkes to continue as Internal Auditor.

7 **Internal Control/Internal Checker:-** It was resolved that Cllr Gethin Jones continues in this role.

8 **Finance Risk Assessment** Appropriate steps to manage Internal Control/Risk Assessment and review of Insurance has been taken by the adoption of various policies, together with advice or guidance provided by Audit Wales and One Voice Wales.

**9 Derbyn Datganiad Cyfrifon**
Cynigiodd Cynghorydd Gethin Jones ein bod yn derbyn y Datganiad Cyfrifon fel cofnod cywir o drafodion y Cyngor yn ystod y flwyddyn, a chafwyd cytundeb unfrydol am hyn.

**10 Datgelu Buddiannau**
Atgoffwyd yr holl aelodau o'r ffaith mai eu cyfrifoldeb unigol nhw yw datgelu budd wrth drafod eitem y mae ganddynt fudd i'w ddatgelu mewn perthynas â hi. Atgoffwyd yr aelodau o'r ffaith bod Cynghorydd Keith Evans wedi ceisio a sicrhau goddefeb i siarad a phleidleisio am faterion sy'n ymwneud â Llandysul Pontyweli Ymlaen Cyf, Cymdeithas Chwaraeon Llandysul a Chalon Tysul tan fis Medi 2026. Anogwyd yr aelodau i wneud cais am a cheisio goddefeb i bwyllgor Safonau a Moeseg Ceredigion os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Datgelwyd budd gan Gynghorydd Deiniol Evans, a adawodd y cyfarfod pan drafodwyd cais ar y cyd am rodd gan Garnifal Llandysul, Neuadd Tysul a Llandysul a Phontyweli Ymlaen. Datgelwyd budd gan Gynghorwyr Beth Davies a Peter Evans a gadawont yr ystafell pan drafodwyd y llythyr gan Galon Tysul.

**11** Derbyniwyd bod **cofnodion** y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2026 yn gywir, ar ôl newid enw Cynghorydd Deiniol Davies i Gynghorydd Deiniol Evans, a oedd yn bresennol, ac ychwanegu hefyd bod Beth Davies wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod. Hefyd, nodi bod gennym 2 sedd wag yn Ward Llandysul, nid 1, fel y nodwyd yn y cofnod am sedd wag.

**12 Materion yn Codi:-**
Roedd Cynghorydd Douglas Davies yn dymuno anfon llythyr o ddiolch i'r Cyngor Sir, a oedd wedi llenwi rhan fwyaf y tyllau yn y ffordd yn ardal Capel Dewi. Roeddent wedi dadflocio draen hefyd, a oedd wedi achosi i ddŵr glaw lifo i lawr y rhiw ac i mewn i'r safle bws.

Bydd y clerc yn atgoffa Rhodri Thomas o'r angen i gwblhau'r gwaith gofynnol wrth y safle bws yng Nghapel Dewi.

Hysbyswyd y Cyngor gan Gynghorydd Keith Evans o'r ffaith bod y Meinciau dan y Cynllun Trefi Taclus wedi cael eu gosod yn eu lle a bod yr hen feinciau wedi cael eu cludo i lawr i gaeau y Gymdeithas Chwaraeon er mwyn eu hailddefnyddio. Atgoffwyd y Cynghorwyr i ddod â gwybodaeth yn ôl erbyn y cyfarfod nesaf ynghylch ble yn eu pentrefi y maent yn dymuno gweld y meinciau newydd ychwanegol yn cael eu lleoli. Gofynnwyd iddynt hefyd a fyddai modd uwchgylchu'r hen feinciau er mwyn eu gosod yn rhywle arall.

Esboniodd Cynghorydd Keith Evans bod yr archeb am y biniau halen yn symud yn ei flaen gyda'r Cyngor Sir, ac y

**9 To Receive Statement of Accounts** Cllr Gethin Jones proposed that we accept the Statement of Accounts as a true record of the Council's transactions over the year, and agreed unanimously.

**10 Declarations of Interest** All members were reminded that it was their individual responsibility to declare their interest if discussing an item in which they had a declarable interest. Members were reminded that Cllr Keith Evans had sought and been given dispensation to speak and vote on issues appertaining to Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen Cyf, Cymdeithas Chwaraeon Llandysul and Calon Tysul until September 2026. Members were encouraged to apply and seek dispensation to Ceredigion's Ethics and Standards committee if they so wished.

Declarations of interest were provided by Cllr Deiniol Evans who left the meeting during consideration of a joint request for a donation by Llandysul Carnival, Neuadd Tysul, and Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen joint donation application. Cllrs Beth Davies and Peter Evans declared and interest and left the room during consideration of a letter from Calon Tysul.

**11 Minutes** of the monthly meeting held on 13th April 2026 were accepted as correct following amending Cllr Deiniol Davies to Cllr Deiniol Evans. in who was present and also adding that Beth Davies was present at the meeting., Also by changing that we had 2 vacant seats in the Llandysul Ward not as 1, that was noted in the vacant seat minute.

**12 Matters Arising:-**

Cllr Douglas Davies wished that a letter of thanks be sent to the County Council who had filled in most of the potholes in Capel Dewi area. They had also unblocked a drain that had been the cause of rainwater to run down the hill and into the Bus Shelter.

The clerk to remind Rhodri Thomas of the need to complete the required work at the bus stop in Capel Dewi.

Cllr Keith Evans informed the Council that the Benches under the Tidy Town Scheme had been put in location with the old benches taken to the Cymdeithas Chwaraeon fields for re-use. Councillors were reminded to bring back information by the next meeting of where in their wards they wished for additional new benches to be located. They were also asked if the old benches could be upcycled to be place somewhere else.

byddent yn eu dosbarthu yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

Bydd y clerc yn cysylltu â'r Post Brenhinol unwaith eto ynghylch symud y blwch post yng Nghapel Dewi.

**13 Rhoddion**

(Gadawodd Cynghorydd Deiniol Evans y cyfarfod tra bod y cais gan Llandysul Pontyweli Ymlaen/Neuadd Tysul a phwyllgor y Carnifal ynghylch trefnu pantomeim yn cael ei ystyried.

**Pantomeim**

Gofynnwyd am rodd o £300 gan Llandysul a Phontyweli Ymlaen/Neuadd Tysul a Charnifal Llandysul er mwyn trefnu pantomeim ym mis Ionawr 2027. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.

**Nacro**

Penderfynwyd talu £660 sef swm y rhent er mwyn cynnal cyfarfodydd misol Nacro yn Neuadd Tysul. Roedd y cynghorwyr yn ddiolchgar am y data a ddarparir o ran y niferoedd sy'n mynychu a math y gwasanaethau a gynigir. Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r cynghorwyr sy'n mynychu ac sy'n rhedeg stondin y Cyngor Cymuned.

**Calon Tysul**

Ar ôl datgelu eu budd yn gynharach yn ystod y cyfarfod, gadawodd Cynghorwyr Beth Davies a Peter Evans yr ystafell tra bod y llythyr gan Galon Tysul yn cael ei ystyried. Arhosodd Cynghorydd Keith Evans yn y cyfarfod gan bod ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.

Cafwyd llythyr gan Galon Tysul yn esbonio bod Cynghorydd Keith Evans, Ward De Llandysul, wedi sicrhau cefnogaeth ehangach Cynghorwyr Ceredigion, a sicrhau grant refeniw o £30,000 y flwyddyn at gyfer y Pwll, ac mae hwn yn cael ei ddarparu ar yr amod bod y cyllid gan Gyngor Cymuned Llandysul yn parhau, a gofynnwyd i'r Cyngor Cymuned ymrwymo i roi £6000 neu swm uwch am y 5 mlynedd nesaf.

Cafwyd trafodaeth yn dilyn hyn, ac amlygwyd y ffaith y byddai penderfyniad o'r fath yn ymrwymo'r weinyddiaeth newydd a fydd yn dod i rym ym mis Mai 2027.

Nodwyd hefyd y byddai angen i'r weinyddiaeth gyfredol ymrwymo gwariant ar gyfer blwyddyn gyntaf tymor y Cyngor newydd, sef 2027/28, oherwydd y byddai angen iddo osod y praesept ar gyfer y flwyddyn ddilynol, sef 2027/28 ym mis Ionawr/Chwefror 2027 er mwyn bodloni terfynau amser y Cyngor Sir.

Penderfynwyd y byddai angen i'r weithdrefn uchod gael ei dilyn gan y Cyngor presennol, a fyddai'n cynnwys ymrwymiad neu fel arall ar gyfer blwyddyn gyntaf y weinyddiaeth nesaf. Yna, byddai'n fater i'r Cyngor newydd benderfynu a fyddai'n parhau gyda'r arfer o gefnogi'r tri sefydliad gyda chyllid refeniw ar gyfer cyfnod y Cyngor newydd a fyddai'n weddill.

**14 Gohebiaeth**

Cllr Keith Evans explained that the order for the salt bins was proceeding with the County Council and they would be fulfilling it in the next couple of months.

The clerk to contact Royal Mail again with regards to moving the post box in Capel Dewi.

**13 Donations**

(Cllr Deiniol Evans left the meeting during consideration of the joint request from Llandysul Pont-Twelly Ymlaen /Tysul Hall and Carnival committee for organising a pantomime.

**Pantomime**

A request for a donation of £300 was requested from Llandysul & Pont-Twelly Ymlaen/Tysul Hall and Llandysjl Carnival to organise and stage a pantomime in January 2027. It was decided to donate the requested amount.

**Nacro**

It was decided to pay £660 for rental of Tysul Hall to hold the monthly Nacro meetings. Councillors were grateful for the data provided in terms of attendances and the type of services offered. Appreciation was given to the councillors that attend and man the Community Council stand.

**Calon Tysul**

Cllrs Beth Davies and Peter Evans having declared their interest earlier in the meeting left the room during consideration of the letter from Calon Tysul. Cllr Keith Evans as he has dispensation to speak and vote remained in the meeting.

A letter was received from Calon Tysul explaining that Cllr Keith Evans, Llandysul South Ward having obtained the wider support of Ceredigion Councillors had secured a £30k p.a. revenue grant for the Pool, this being provided subject to the continuance of funding from Llandysul Community Council, and asking the Community Council to commit to donating £6000 or an increased sum for the next 5 years.

Discussion ensued and it was highlighted that such a decision would commit the new administration which comes to force in May 2027.

It was also pointed out that the current administration would need to commit expenditure for the first year of the new Council term 2027/28 as it would need to set the precept for the ensuing year 2027/28 in Jan /Feb 2027 to meet County Council deadlines.

It was decided that the above procedure would need to be followed by the current Council which would include a commitment or otherwise for the initial first year of the next administration. It would then be a matter for the new Council to determine whether it would continue the custom and practice to support the three organisations with revenue funding for the remaining period of the new Council.

**Negeseuon e-bost –** Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerc ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 13 Ebrill 2026 ac 11 Mai 2026.

**Anfonebau**

Darparwyd gwybodaeth a derbyniwyd y sieciau canlynol i'w talu

Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y swm o £150.80 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Ebrill a derbyniwyd y dylid ei thalu.

LAS Recycling Ltd – Ysgrifennwyd siec am y swm o £82.79 am gasglu sbwriel o Barc Llandysul a chaeau Tirdref ym mis Ebrill.

Cyngor Sir Ceredigion – Ysgrifennwyd siec am y swm o £2,705.57 i dalu am y gwaith o drwsio'r toiledau a ddifrodwyd yn Llandysul, a oedd wedi golygu y bu modd eu hailagor ac maent yn rhan o Gynllun Trefi Taclus.

Y Dyn Bach Handi – Ysgrifennwyd siec am y swm o £630 am waredu, casglu a gosod y meinciau newydd yn Llandysul, a'u cludo i lawr at y Gymdeithas Chwaraeon fel rhan o Gynllun Trefi Taclus.

Archwilio Cymru – talwyd £585, sef y Ffioedd Archwilio.

**Eisteddfod y Garreg Las** – Ysgrifennwyd siec am y swm o £1500 fel ail swm blynyddol cyfraniad y Cyngor tuag at y targed a osodwyd ar gyfer ein pwyllgor codi arian lleol.

**15 Materion Wardiau**

**Pontsiân**

Roedd Cynghorydd Gethin Jones yn dymuno adrodd bod twll yn y ffordd ym Mhontsiân ger yr hen ysgol gynradd.

**Llandysul**

Adroddwyd bod aelod o'r cyhoedd wedi cwympo ar y palmant rhwng siop Ffab a Bon Appetito. Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i adrodd am y digwyddiad a gofyn am archwiliad o'r troedffyrdd a chyflwr y ffordd yn nhref Llandysul, gan ddatblygu rhaglen i uwchraddio cyflwr yr asedau.

**Pren-gwyn**

Hysbyswyd y clerc gan Gynghorydd Eileen Curry ei bod hi wedi cael cwynion niferus gan aelodau'r cyhoedd am gyflwr y ffordd o Bren-gwyn i Dre-groes a'i bod yn beryglus mewn sawl man.

**16 Lle Chwarae i Blant Llandysul**

Hysbyswyd y Cynghorwyr gan y clerc o'r ffaith y byddai ROSPA yn archwilio'r lle chwarae i Blant ger y Parc Coffa ym mis Mehefin.

**17 Sedd Wag yn Llandysul**

Atgoffwyd yr Aelodau o'r ffaith na chafwyd unrhyw geisiadau i fod yn aelod am y ddwy sedd wag yn ward tref Llandysul. Gofynnwyd i'r aelodau nodi darpar aelodau posibl erbyn y cyfarfod nesaf, a gofyn iddynt anfon llythyr yn mynegi eu diddordeb yn y rôl, gan nodi ychydig o'u

**14 Correspondence**

**E-mails** –A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 13th April 2026 – 11 May 2026 was tabled.

**Invoices**

Information provided and cheques passed for payment

Llinos Jones – Invoice for April translation was received in the sum of £150.80 and passed for payment.

LAS Recycling Ltd – Cheque for £82.79 was written for collection of refuse from Llandysul Park and Tirdref fields in April.

Ceredigion County Council – Cheque was written for £2,705.57 to pay for repairs to the vandalised toilets in Llandysul which enabled their re-opening and is part of the Tidy Town Scheme.

The Handyman – Cheque was written for £630 for removal, collecting and fixing the new benches in Llandysul and taking them down to Cymdeithas Chwaraeon as part of the Tidy Towns scheme.

Audit Wales - £585 was paid for Audit Fees.

**Eisteddfod y Garreg Las** –

A cheque was written for £1500 being the second year instalment of the Councils' contribution towards the target set for our local fundraising committee.

**15 Ward Matters**

**Pontsian**

Cllr Gethin Jones reported the presence of a pothole on the highway in Pontsian immediately adjacent to the former primary school in Pontsian.

**Llandysul**

It was reported that a member of the public had fallen on the pavement somewhere between Ffab siop up to Bon Appetito. It was decided that the clerk contact the County Council to report the incident and requesting an inspection of the footways and the highway condition within the town in Llandysul and to develop a programme to upgrade the condition of the assets.

**Prengwyn**

Councillor Eileen Curry informed the clerk that she had received numerous complaints from members of the public on the state of the road from Prengwyn to Tregroes and that is was dangerous in a number of places.

**16 Llandysul Children's Playarea**

cefndir a'u profiad er mwyn i'r Cyngor eu hystyried.

**18 Plannu**
Cwblhawyd y gwaith chwynnu yn unol â'r amserlen. Bydd y clerc yn hysbysu Meithrinfa Farmyard bod y dysglau yn barod er mwyn gwneud y gwaith plannu.

**19 Adroddiad gan Gynghorwyr Sir**
Cafwyd gohebiaeth ar ffurf neges e-bost yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r Cyngor am weithgareddau Cynghorydd Keith Evans, ward De Llandysul, yn ystod y cyfnod rhwng 14 Ebrill ac 11 Mai, ac fe'i nodwyd.

Hysbyswyd y Cyngor gan Gynghorydd Maldwyn Lewis o'r ffaith bod Cyngor Cymuned Troedyraur wedi prynu pecynnau rheoli gwaed, i'w gosod ym mlychau'r Diffibrilwyr. Penderfynwyd cynnwys y mater ar agenda y cyngor fis nesaf, gan nad yw Cyngor Cymuned Llandysul yn berchen ar unrhyw ddiffibriliwr yn Ardal Cyngor Cymuned Llandysul, fodd bynnag, roedd wedi cyfrannu swm ariannol i bob ward dan ei reolaeth er mwyn prynu diffibrilwyr.

**20 Cynllunio**
A260234 – Highview, Gelligron, Rhydowen, SA44 4UB. Esboniodd Cynghorydd Gethin Jones i'r cyfarfod bod preswylwyr lleol yn gofidio ynghylch mynediad i'r safle. Bydd y clerc yn adrodd hyn wrth yr adran gynllunio.

**21 Lwfans y Cadeirydd** Penderfynwyd y dylai swm y lwfans aros yr un peth, sef £300. Hysbysodd y Cadeirydd a oedd yn gorffen, Cynghorydd Gethin Jones, nad oedd yn dymuno cael yr arian a'i fod yn dymuno iddo aros yng nghyllideb y Cyngor.

**22 Cyflog y Clerc** – Roedd y clerc wedi symud i frig y raddfa, felly nid oes angen gwneud unrhyw addasiadau. Esboniodd y clerc bod y trothwy Yswiriant Gwladol ar gyfer taliadau wedi newid, a bod swm o £727.50 yn ddyledus i CThEF.

**23 Papur swyddfa** Penderfynwyd y gallai'r Clerc brynu'r papur swyddfa a'r inc angenrheidiol heb sicrhau cytundeb y Cyngor ymlaen llaw, ond y dylai adrodd am unrhyw weithgarwch o'r fath yn ystod cyfarfod nesaf y Cyngor.

The clerk informed the Councillors that ROSPA would be inspecting the Children's play area adjacent to the Memorial Park in June.

**17 Vacant Seat Llandysul**
Members were reminded that there been no requests to become a member for the two vacant seats in the Llandysul town ward. Members were requested to identify appropriate potential members by the next meeting and to request them to submit an expression of interest letter in the role, providing some background information and experience for Council's consideration.

**18 Planting**
Weeding had been completed as per schedule. The clerk to inform Farmyard Nurseries that the troughs were ready for planting.

**19 Report by County Councillors**

E-mail correspondence was received as requested providing the Council with detailed information on Cllr Keith Evans Llandysul South wards' activities for the period 14 April – 11 May 2026 and noted.

Cllr Maldwyn Lewis informed the Council that Troedyraur Community Council had purchased blood control kits to be placed in the Defibrillator boxes. It was decided to put the matter on the agenda for next month as Llandysul Community Council does not own any of the defibrillator within the Llandysul Community Councils Area, however it had contributed a financial sum for each of the wards under its control to purchase defibrillators.

**20 Planning**
A260234 – Highview, Gelligron, Rhydowen, SA44 4UB.
Councillor Gethin Jones explained to the meeting that local residents are worried about the access to the site. The clerk to report this to the planning section.

**21 Chair's Allowance** It was decided that the allowance should remain at £300. Retiring Chair, Cllr Gethin Jones who had not taken his allowance, choosing instead for it to remain within the Councils budget.

**22 Clerk's Salary** – The clerk had progressed to the top of the scale therefore no adjustments needed to be undertaken. The clerk explained that the National Insurance threshold for payments had changed and that payment of £727.50 was outstanding to HMRC.

**23 Stationery** It was resolved that the Clerk could purchase necessary stationery and ink

without prior agreement of Council but to report any such action to the next available meeting of Council.

**Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques**:

Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

£ c/£ p

| | | | |
|---|---|---|---|
| Carnifal Llandysul | Rhodd/Donation | 300.00 | 001430 |
| Neuadd Tysul Nacro | Rhodd/Donation | 660.00 | 001431 |
| Cyngor Ceredigion | Grant Toiledau | 2705.57 | 001432 |
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translation | 150.80 | 001433 |
| LAS Recycling | Sbwriel y Parc Ebrill | 82.79 | 001434 |
| Audit Wales | 25-26 Audit Fee | 585.00 | 001435 |
| Eisteddfod y Garreg Las | Rhodd/Donation | 1500.00 | 001436 |
| Nia Davies | Clerc/Clerk Wages | 633.07 | 001437 |
| HMRC | Cyflog y Clerc/Clerk Wages | 214.34 | 001438 |
| Y dyn bach handi | Cynnal a Chadw | 630.00 | 001439 |
| HMRC | National Insurance | 727.50 | 001440 |
| | | | |